GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	Rhif Cyfeirnod: PHW-SCD17 Rhif y fersiwn: 1 Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: Gorffennaf 2026

Fframwaith Goruchwylio Clinigol ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd

Cyflwyniad a Nod

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r farn bod goruchwylio clinigol yn gyfraniad hanfodol i adlewyrchu ein bwriad strategol ac i gryfhau'r ddarpariaeth gofal o ansawdd uchel effeithiol.

Prif gynulleidfa darged y fframwaith hwn yw'r rhai sydd mewn rolau clinigol neu gefnogol. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr sy'n darparu ymyriadau gofal iechyd yn uniongyrchol, neu i lywio ymyriadau y gellir eu cynnal gan weithiwr iechyd proffesiynol arall. Er enghraifft: Diogelu Iechyd, Sgrinio a Microbioleg. Gellir defnyddio'r fframwaith hwn mewn amrywiaeth eang o leoliadau a'i addasu yn ôl y gwasanaeth neu'r swyddogaeth benodol.

Mae Goruchwylio Clinigol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio proses ffurfiol o gymorth proffesiynol, myfyrio a dysgu sy'n cyfrannu at ddatblygiad unigol drwy hunanarchwilio beirniadol a hunanreoleiddio (Butterworth 2022 tudalen 20)[1] [2]ac yn darparu dull strwythuredig o fyfyrio'n ddyfnach ar ymarfer clinigol a phroffesiynol. Mae goruchwylio clinigol yn elfen hanfodol o Fframwaith Llywodraethu Clinigol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n hymrwymiad sefydliadol i ddarparu gwasanaethau rhagorol a diogel. Nod y Fframwaith hwn yw sicrhau bod egwyddorion craidd ar waith i fod yn sail i drefniadau goruchwylio clinigol ac i sicrhau dull cyson yn y ffordd y mae'n cael ei gymhwyso gyda hyfforddiant priodol a chaffael sgiliau i'r rhai sy'n arwain ac yn darparu Goruchwylio Clinigol.

Mae Goruchwylio Clinigol yn creu lle diogel i weithwyr gofal iechyd proffesiynol (ar draws yr holl arbenigeddau) ac ymarferwyr eraill i fyfyrio ar eu hymarfer gyda'r bwriad o ddysgu, datblygu a gwella gwybodaeth, cymhwysedd a hyder yn eu rôl.

Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig

Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

AW16.CDO2 Canllawiau interim ar gadw dogfennau a chofnodion eraill

[1] Butterworth T (2022) What is clinical supervision and how can it be delivered in practice? Nursing Times [ar-lein] 118

[2] Butterworth T (2022B) yn Sigma Repository (2022) Cultivating psychological safety through clinical supervision. Cultivating psychological safety through clinical supervision (nursingrepository.org)

Gweithdrefn ar gyfer Hysbysu ac Adrodd Pryderon Addasrwydd i Ymarfer Posibl ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol a Reoleiddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) 2022 Fframwaith Llywodraethu Clinigol 2023 Iechyd Cyhoeddus Cymru Strategaeth Ansawdd a Gwella 2021-2030 Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cwmpas Nod y papur hwn yw cefnogi a hwyluso mynediad at oruchwylio clinigol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n adlewyrchu ein bwriad strategol i gryfhau'r ddarpariaeth gofal o ansawdd uchel effeithiol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Ceir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd ar y dudalen polisïau a gweithdrefnau ar y rhyngrwyd.
Cymeradwywyd gan	Y Tîm Gweithredol Busnes
Dyddiad Cymeradwyo	19 Gorffennaf 2023
Dyddiad Adolygu	19 Gorffennaf 2026
Dyddiad Cyhoeddi:	17 Hydref 2023
Cyfarwyddwr Gweithredol Atebol/ Cyfarwyddwr	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Awdur	Caroline Whittaker, Nyrs Arwain Broffesiynol, Rheolwr Bydwreigiaeth a Safonau - Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Yr Athro Edward Guy, Arweinydd Proffesiynol Gwyddor Gofal Iechyd a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd – Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Angela Cook, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.

Ymwadiad **Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu** Uned Fusnes y Bwrdd

Crynodeb o'r adolygiadau/diwygiadau				
Rhif y fersiwn	**Dyddiad adolygu**	**Dyddiad cymeradwyo**	**Dyddiad cyhoeddi**	**Crynodeb o'r diwygiadau**
1.0	2023	18/07/2023	17/10/2023	Fframwaith Newydd

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Goruchwylio Clinigol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio proses ffurfiol cymorth proffesiynol, myfyrio a dysgu sy'n cyfrannu at ddatblygiad unigol trwy hunanarchwilio beirniadol a hunanreoleiddio (Butterworth 2022 t20)[3] [4]ac mae'n darparu dull strwythuredig o fyfyrio'n ddyfnach ar ymarfer clinigol a phroffesiynol.

1.2 Bwriedir y fframwaith hwn i'r rhai sydd mewn rolau clinigol neu gefnogol sy'n darparu ymyriadau gofal iechyd yn uniongyrchol neu i lywio ymyriadau y gellir eu cynnal gan weithiwr iechyd proffesiynol arall er budd defnyddwyr gwasanaethau neu gleifion e.e., Diogelu Iechyd, Sgrinio a Microbioleg.

1.3 Mae nifer o fodelau ar gyfer darparu goruchwylio clinigol effeithiol yn cael eu rhagnodi, eu mabwysiadu neu eu hargymell gan gyrff proffesiynol a rheoleiddiol perthnasol. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi ein staff i gael mynediad at y model mwyaf priodol i gefnogi eu hanghenion a'u rôl broffesiynol.

1.4 Cydnabyddir bod Goruchwylio Clinigol yn elfen annatod o gymorth a datblygiad staff ac mae felly'n hanfodol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad y gweithlu ac yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu clinigol da.

2. Diben

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldeb eu hunain, a chyfrifoldeb y sefydliad, mewn perthynas â goruchwylio clinigol a bod anghenion datblygu staff yn cael eu nodi a'u diwallu.

2.1 Cwmpas Cymhwyso

Mae'r fframwaith hwn i'w gymhwyso i wasanaethau clinigol a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dyma ddiffiniad o wasanaethau clinigol yn y cyd-destun hwn:

Gweithgarwch clinigol, cymdeithasol neu iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud ag atal, archwilio a thrin salwch a lliniaru dioddefaint unigolion. Mae'n cynnwys cefnogi gallu unigolion i weithredu a gwella eu cyfranogiad mewn bywyd a chymdeithas[5]

[3] Butterworth T (2022) What is clinical supervision and how can it be delivered in practice? Nursing Times [ar-lein] 118
[4] Butterworth T (2022B) yn Sigma Repository (2022) Cultivating psychological safety through clinical supervision. Cultivating psychological safety through clinical supervision (nursingrepository.org)
[5] NHS Digital https://digital.nhs.uk/services/national-data-opt-out/operational-policy-guidance-document/appendix-2-definitions

3. Goruchwylio Clinigol

3.1 Beth yw Goruchwylio Clinigol?

Mae Goruchwylio Clinigol yn broses ffurfiol a gynlluniwyd o gymorth proffesiynol a dysgu a gynhelir mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Bydd y goruchwyliwr a'r goruchwyliedig yn cytuno'n ffurfiol ar y telerau goruchwylio a fydd yn cynnwys rheoli cyfrinachedd ac uwchgyfeirio pryderon proffesiynol a phryderon sy'n ymwneud ag achosion.

3.2 Manteision Goruchwylio Clinigol

Asesu manteision goruchwylio clinigol reolaidd i'r staff a'r sefydliad. Dylid cytuno ar yr amlder â rheolwyr lleol, yn dibynnu ar yr angen a nodwyd mewn arfarniadau "Fy Nghyfraniad". Gall hyn fod bob 6-8 wythnos i rai staff ac yn llai aml i eraill.

Mae goruchwylio clinigol yn cefnogi'r canlynol:

- Helpu staff i reoli'r gofynion personol a phroffesiynol sy'n cael eu creu gan eu gwaith o ddydd i ddydd, ystyried safbwyntiau newydd a nodi atebion
- Darparu amgylchedd lle y gall staff archwilio eu hymatebion personol ac emosiynol i'w gwaith, gan gefnogi iechyd a llesiant emosiynol gwell
- Cynnig y cyfle i grwpiau proffesiynol deimlo eu bod yn cael eu cefnogi, gan leihau ynysu proffesiynol, ac i ddysgu o ddigwyddiadau er mwyn ailadrodd arfer gorau
- Galluogi staff i fynegi teimladau. Myfyrio ar eu harfer eu hunain a'i herio mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol
- Dod yn rhan o'u datblygiad proffesiynol, a helpu i nodi eu hanghenion datblygu
- Dod ag elfennau gwahanol o ymarfer a gwaith ynghyd i helpu i wneud newidiadau i wella'r ffordd rydym yn gweithio neu'n darparu gofal
- Cyfrannu tuag at fodloni gofynion cyrff proffesiynol a gofynion rheoleiddiol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus

3.3 Beth nad yw Goruchwylio Clinigol?

Nid dyma beth yw Goruchwylio Clinigol:

- Fforwm ar gyfer codi pryderon o ran prosesau rheoli
- Trafodaeth i fynegi pryderon am y gweithle yn anffurfiol
- Offeryn i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant
- Fforwm ar gyfer nodi problemau heb nodi atebion
- Fforwm ar gyfer datrys gwrthdaro personol neu broffesiynol, perfformiad gwael neu faterion disgyblu
- Lle i gydgynllwynio ag arfer gwael neu danseilio unigolion.

3.4 Elfennau Goruchwylio Clinigol

Mae goruchwylio yn cynnwys pedair elfen allweddol:

- **Gweithredol (Normadol**) – mae hyn yn cyfeirio at hyrwyddo a chynnal safonau da o waith, cydgysylltu ymarfer â'n polisïau a'n trefniadau gweithredu safonol a gwarant (neu 'sicrwydd') gwasanaeth ac ymarfer effeithlon, diogel ac o ansawdd

- **Myfyriol (Ffurfiannol)** – hwyluso adolygiad meddylgar ac ystyriol o gamau personol wrth fodloni ein hamcanion sefydliadol a phroffesiynol

- **Addysgol (Ffurfiannol)** – gwybodaeth a datblygiad emosiynol ein staff i'w galluogi i gyrraedd eu potensial llawn

- **Cefnogol (Adferol)** – sylw i ddatblygu a diogelu galluedd emosiynol a deallusol yr aelod staff unigol ar gyfer llesiant personol ac i gefnogi perthnasoedd gwaith da.

4. Trefniadau ar gyfer darparu ar hyn o bryd a gweithredu yn y dyfodol

Mae trefniadau sefydledig ar gyfer goruchwylio clinigol ar waith ar gyfer nifer o grwpiau proffesiynol ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae datblygu a gweithredu modelau darparu gwasanaeth newydd yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru, ynghyd ag argymhellion posibl yn y dyfodol gan rai Cyrff Rheoleiddiol Proffesiynau Gofal Iechyd ychwanegol, yn ei gwneud yn debygol y bydd angen ystyried trefniadau goruchwylio clinigol mwy ffurfiol ar gyfer grwpiau staff ychwanegol a rolau newydd.
Er mwyn sicrhau cysondeb a rhoi sicrwydd ar draws yr holl wasanaethau clinigol a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, dylai'r holl adrannau perthnasol sicrhau'r canlynol:

- Maent wedi nodi a chynnal cyfeiriadur o'r holl rolau lle y mae staff yn darparu gwasanaethau clinigol ac y gall fod angen goruchwylio clinigol arnynt
- Sicrhau bod ffurf briodol ar oruchwylio clinigol ar waith ar gyfer yr holl staff perthnasol, yn gyson ag argymhellion cyrff proffesiynol a/neu reoleiddiol, ac yn gymesur â'r rôl glinigol
- Cynnal cofnod o'r holl staff y mae angen goruchwylio clinigol arnynt a chael mynediad at gofnodion priodol at ddibenion archwilio er mwyn sicrhau yr ymgymerir â goruchwylio clinigol effeithiol yn llawn (dylai cadw cofnodion fod yn unol â'r mecanweithiau llywodraethu a rheoleiddio integredig)
- Cynnwys archwiliad o oruchwylio clinigol, fel y bo'n briodol, yn unol â'r prosesau archwilio ansawdd a diogelwch presennol
- Cynnal asesiad o'r holl rolau newydd i bennu unrhyw ofyniad ar gyfer goruchwylio clinigol.

5. Dulliau darparu

Mae nifer o ffyrdd o ddarparu goruchwyliaeth a allai gynnwys:

- **Un i un**
  Mae hyn yn cynnwys goruchwylio rhwng goruchwyliwr a'r goruchwyliedig.

- **Un i un: cydoruchwylio**
  Mae hyn yn cynnwys dau gyfranogwr yn darparu goruchwyliaeth i'w gilydd drwy newid rolau goruchwyliwr a goruchwyliedig bob yn ail. Fel arfer, mae'r amser sydd ar gael ar gyfer sesiwn oruchwylio'n cael ei rannu'n gyfartal rhyngddynt. Rhaid dyrannu amser digonol i bob ymarferydd er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o'r materion sy'n codi.

- **Goruchwylio cymheiriaid**
  Goruchwylio lle mae ymarferwyr yn trafod gwaith â'i gilydd, gyda rôl goruchwyliwr yn cael ei rhannu neu heb aelod unigol o staff yn gweithredu fel goruchwyliwr ffurfiol

- **Goruchwylio grŵp**
  Mae amrywiaeth o ffyrdd o ddarparu'r math hwn o oruchwyliaeth. Ar un pen o'r sbectrwm, bydd y goruchwyliwr, yn gweithredu fel yr arweinydd, yn cymryd cyfrifoldeb dros rannu'r amser rhwng y goruchwyliedig, ac yna canolbwyntio ar waith unigolion yn eu tro. Ar y pen arall o'r ystod, bydd y goruchwyliedig yn dyrannu'r amser goruchwylio rhyngddynt eu hunain, gan ddefnyddio'r goruchwyliwr fel adnodd technegol. Mae llawer o ffyrdd gwahanol o weithio rhwng y ddau ddewis hyn. Mae rhannu amser rhwng y goruchwyliedig i'w gytuno gan y grŵp a gall gynnwys y goruchwyliedig yn gwneud cynigion am amser ar ddechrau pob sesiwn oruchwylio.
  Fel arfer, nid yw'r nifer delfrydol o unigolion goruchwyliedig mewn goruchwylio grŵp yn fwy nag 8, gan fod angen i bawb gael ei gyfran deg o 'amser awyr' mewn lleoliad grŵp.

- **Cyfuniad o'r uchod**
  Gall y modd darparu priodol amrywio, yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys profiad y goruchwyliedig, ei lwyth gwaith, y cyd-destun y mae'n gweithio ynddo a'i gefndir proffesiynol. Mae cyrff proffesiynol, gan amlaf, yn cyfeirio at oruchwylio un i un neu oruchwylio grŵp.

6. Goruchwylio Penodol

6.1 Goruchwylio Diogelu

Mae hyn yn cynnig proses ffurfiol o gymorth proffesiynol a dysgu i ymarferwyr ac mae'n ymwneud â 'sut' y mae ymarfer diogelu'n gweithio. Mae goruchwylio diogelu'n darparu fframwaith ar gyfer archwilio achos a myfyrio arno o safbwyntiau gwahanol a hefyd yn hwyluso dadansoddiad o'r ffactorau risg (natur agored i niwed ac adfyd) a diogelu (cydnerthedd) dan sylw. Mae goruchwylio a

chymorth diogelu'n elfen hanfodol o lywodraethiant clinigol, gan sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel i ddefnyddwyr gwasanaethau yn unol â Llywodraeth Cymru. Mae canllawiau 'Working Together to Safeguard Children' (Llywodraeth EF, 2018) yn hyrwyddo goruchwylio diogelu effeithiol a chydnabyddiaeth o effaith emosiynol y rôl ddiogelu ar ymarferwyr. Mae'r Arweinydd Diogelu a Enwir yn cefnogi darpariaeth Goruchwylio Diogelu ar draws y sefydliad yn unol â Chanllawiau Goruchwylio Arferion Gorau Diogelu Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

6.2 Goruchwylio Bydwreigiaeth

Yn 2017, tynnodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth oruchwylio statudol o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. O ganlyniad i'r newid hwn, lansiwyd model newydd o oruchwylio clinigol ar gyfer bydwragedd yng Nghymru, gyda gofyniad gorfodol i'r holl fydwragedd gael mynediad at bedair awr o oruchwylio clinigol bob blwyddyn, y mae'n rhaid i ddwy ohonynt fod mewn sesiwn grŵp.

6.3 Ôl-drafodaeth ar ôl digwyddiadau

Mae cael ôl-drafodaeth yn fodel o oruchwylio a chymorth a ddefnyddir fel arfer pan fo staff wedi bod yn agored i ddigwyddiad arwyddocaol yn y gweithle. Mae'r model hwn yn galluogi'r rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r digwyddiad i'w brosesu a myfyrio ar ei effaith arnyn nhw a'u cydweithwyr. Mae'n galluogi adolygu prosesau, strwythurau a gweithdrefnau, gan hyrwyddo dysgu a gwella ar y cyd. Mae'n hwyluso datblygiad proffesiynol.

6.4 Arfarnu Proffesiynol ac Ailddilysu

Gweithredodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) broses ailddilysu ar gyfer yr holl Ymarferwyr Meddygol, y mae arfarnu blynyddol ac ailddilysu bob pum mlynedd yn sail iddi. I gefnogi'r broses hon, datblygodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) System Ailddilysu Arfarniad Meddygol Cymru Gyfan i hwyluso'r broses arfarnu ac ailddilysu, drwy helpu Ymarferwyr Meddygol i drefnu a choladu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol ganddynt. Mae ailddilysu meddygol yn cael ei gydgysylltu a'i reoli drwy swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol ac mae angen cyflwyno adroddiad cynnydd i AaGIC yn flynyddol. Mae'r arfarniad blynyddol yn cael ei drefnu drwy System Ailddilysu Arfarniad Meddygol AaGIC. Mae ymarferwyr meddygol yn dewis arfarnwr o'r panel o arfarnwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru hyfforddedig. Mae crynodeb o'r arfarniad ar gael i'r Cyfarwyddwr Meddygol (Swyddog Cyfrifol) ei weld, sy'n cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Meddygol yn ei argymhellion ar gyfer ailddilysu ar gylch 5 mlynedd. Mae arweinydd arfarnu hefyd yn y swydd i sicrhau bod arfarnwyr yn cael eu hyfforddi, ac i gydgysylltu'r trefniadau arfarnu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

6.4.1 Unigolion cofrestredig Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU

Mae'n ofynnol i holl unigolion cofrestredig Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU gynnal y prosesau arfarnu ac ailddilysu proffesiynol sy'n cyfateb i ymarferwyr meddygol a deintyddol er mwyn cynnal cofrestriad. Rheolir unigolion cofrestredig

ar y System Ailddilysu Arfarniad Meddygol a ddefnyddir gan unigolion cofrestredig y GMC.

7. Cyfrifoldebau Goruchwylio

7.1 Cyfarwyddwyr Gweithredol

Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer:

- Y fframwaith goruchwylio clinigol i gael ei gymhwyso ym mhob maes o'u Cyfarwyddiaeth lle y mae gwasanaethau neu swyddogaethau clinigol wedi'u diffinio (adran 2)
- Bydd staff yn cael eu hannog, eu cefnogi a'u rhyddhau mewn amser wedi'i neilltuo i fynd i oruchwylio y cytunwyd arno.

7.2 Rheolwyr Llinell

Mae rheolwyr llinell yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- Maent yn hyrwyddo diwylliant cefnogol sy'n croesawu goruchwylio clinigol ac yn annog ymgysylltu â staff i gael mynediad at oruchwylio
- Mae systemau a phrosesau priodol ar gyfer goruchwylio ar waith i'r holl staff yn y maes cyfrifoldeb
- Gall cofrestr o oruchwylwyr gael ei datblygu a'i chynnal ar draws yr Adrannau a/neu'r gwasanaethau a bydd cofrestr ganolog o oruchwylwyr hyfforddedig yn cael ei chynnal gan yr Arweinydd Proffesiynol a nodir
- Hyrwyddo Goruchwylio Clinigol drwy broses adolygu datblygiad personol flynyddol "Fy Nghyfraniad" a rhaglenni mentora/tiwtora, gan gytuno ar yr amlder drwy'r prosesau sy'n seiliedig ar angen unigol
- Mae'r canllawiau'n cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn deg yn eu maes rheolaeth
- Maent yn annog, yn cefnogi ac yn rhyddhau eu staff yn ystod oriau gwaith i fynd i'r goruchwylio y cytunwyd arno - clinigol, rheoli a phroffesiynol
- Pan fo hyfforddiant ar gael, bydd goruchwylwyr yn cael eu hyfforddi'n briodol.

7.3 Arweinydd Proffesiynol

Pan nad yw Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol yn cael ei reoli gan unigolyn cofrestredig o'r un proffesiwn, gall rheolwyr llinell ddewis dirprwyo neu enwebu arweinwyr proffesiynol i gyflawni'r rôl.

Mae Arweinwyr Proffesiynol yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- Gweithrediad Goruchwylio Clinigol yn eu grwpiau neu dimau proffesiynol priodol
- Cynnwys canllawiau Goruchwylio Clinigol yn y broses sefydlu leol i'r holl staff newydd

- Bod yr holl staff dynodedig clinigol yn ymwybodol o Oruchwylio Clinigol, ac yn cael mynediad ato, a bod y gweithgarwch yn cael ei ymgorffori yn eu hymarfer clinigol a'u cynllun swydd broffesiynol a'u cynllun datblygu.

7.4 Goruchwyliwr

Bydd gan y goruchwylwyr y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol i hwyluso trafodaethau a allai fod yn heriol yn ystod sesiynau goruchwylio. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff ymgymryd â'r rôl hon.

- Bydd goruchwylwyr wedi trafod a chytuno â'u rheolwr llinell eu hunain ynghylch eu hargaeledd a'u capasiti ar gyfer goruchwylio
- Dylai goruchwylio gael ei ddarparu gan ymarferydd sydd wedi'i hyfforddi'n briodol mewn goruchwylio. Dylai fod yn cael goruchwylio clinigol
- Pennu contract a chytuno arno â'r unigolion goruchwyliedig a chynnal dogfennaeth bresenoldeb **(Atodiad A)**
- Sicrhau y cynhelir y sesiwn mewn amgylchedd sy'n ffafriol i wneud y gorau o'r sesiynau myfyriol
- Hyrwyddo'r defnydd o fyfyrio i hwyluso archwilio ymarfer proffesiynol/clinigol, er mwyn gwella ymwybyddiaeth bersonol, hyder ac effeithiolrwydd y goruchwyliedig. Gall hyn ymwneud ag adolygu achosion unigol a gwneud penderfyniadau
- Os oes angen, herio meysydd pryder proffesiynol a phersonol yn adeiladol.

7.5 Unigolion Goruchwyliedig

Bydd yr holl staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau clinigol yn cymryd rhan mewn goruchwylio clinigol. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i sicrhau y gall staff fyfyrio a datblygu eu hymarfer i wella gwasanaethau, darparu gofal diogel a chanlyniadau gwell i bobl Cymru.

- Dylent ddod â deunydd ar draws yr amrywiaeth cyfan o'u gweithgareddau a'u cymwyseddau, i'r goruchwylio ar gyfer trafodaeth. Nid oes angen i hyn ganolbwyntio ar ddeunydd anhawster arbennig, her, risg yn unig, ond gallai gynnwys gwaith parhaus rheolaidd
- Bod o'r farn bod goruchwylio clinigol yn rhan annatod o'u hymarfer proffesiynol ac fel offeryn i wella hyn. Bod yn gyfrifol am sicrhau bod y cynlluniau sy'n cael eu llunio yn ystod sesiwn oruchwylio'n cael eu dilyn a bod y nodau a bennir yn gyflawnadwy ac yn realistig
- Bod yn barod am adborth adeiladol/her broffesiynol i hyrwyddo rhagor o fyfyrio neu feddwl beirniadol
- Bod yn ymwybodol o anghenion dysgu a nodir a chymryd camau cadarnhaol i ddiwallu'r rhain
- Dangos eu bod wedi datblygu eu hymarfer eu hunain drwy fyfyrio a fydd yn cefnogi cofrestru/ailddilysu i'w cyrff proffesiynol
- Os bydd pryder gan yr unigolion goruchwyliedig ynghylch ansawdd goruchwyliaeth, dylid cynnal trafodaethau'n gyntaf yn y berthynas oruchwylio. Os nad yw hyn yn foddhaol, efallai y bydd angen trafodaethau

â'u rheolwr llinell neu eu Harweinydd Proffesiynol a Enwir i fynd i'r afael â hyn.

8. Safonau Ansawdd

8.1 Hyfforddiant Cymeradwy

Dylai goruchwylwyr naill ai fod wedi cwblhau hyfforddiant y cytunwyd arno mewn goruchwylio neu'n gallu dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy'r broses ailddilysu, neu bortffolio o dystiolaeth datblygiad proffesiynol parhaus. Os oes angen rhagor o gyngor, gellir darparu hyn gan yr Arweinydd Proffesiynol perthnasol yn y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.

8.2 Dewis y Goruchwyliwr

Bydd dewis y goruchwyliwr yn amrywio, yn dibynnu ar angen yr unigolyn a'r goruchwyliedig fydd yn gyfrifol am nodi pwy a fydd yn diwallu ei angen goruchwylio.

8.3 Safonau Gofynnol

Mae goruchwylio'n broses ddwy ffordd ac mae gan yr holl staff gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn goruchwylio rheolaidd. Bydd pob aelod o staff yn penderfynu gyda'i reolwr llinell ar y model mwyaf priodol iddo a'r amlder. Bydd gan y clinigydd neu'r grŵp gytundeb ffurfiol â goruchwyliwr a enwir a gellir cofnodi hyn **(Atodiad A)**.

Mae angen i'r rhai sy'n cynnal goruchwylio sicrhau eu bod yn ymateb i geisiadau staff am oruchwylio yn unol â'r canllawiau hyn. Os bydd yr arbenigedd, y gwasanaeth neu'r rôl swydd yn gofyn am gymorth allanol ar gyfer goruchwylio, bydd y sefydliad yn sicrhau y gwneir darpariaeth briodol i'r ymarferwyr hynny. Dylid trafod hyn a chytuno arno â'r rheolwr a'r Arweinydd Proffesiynol a dylai proses adolygu gael ei rhoi ar waith.

Gellir cynnal goruchwylio wyneb yn wyneb neu o bell drwy ddefnyddio cyfryngau digidol sy'n cydymffurfio â Llywodraethu Gwybodaeth. Dylai'r model goruchwylio y cytunir arno ac a ddefnyddir fodloni'r safonau gofynnol, sef:

- Bodloni gofynion proffesiynol neu gofrestru digonol ac angenrheidiol
- Diwallu anghenion a nodir yr aelod o staff
- Dogfennaeth wedi'i llenwi sy'n cofnodi dyddiad a hyd y sesiwn
- Bod yn ystod oriau gwaith pryd bynnag y bo'n bosibl (heb gynnwys teithio)
- Bod yn hygyrch ac yn ddi-dor
- Bod gyda goruchwyliwr neu fentor cymeradwy neu â'r hyfforddiant addas
- Cytuno arno'n flynyddol gyda'r presenoldeb gofynnol wedi'i nodi
- Cael amlder diffiniedig, math/model, lleoliad, amser, trefniadau teithio, ac ymrwymiad wedi'u pennu yn y contract goruchwylio
- Cael ei adolygu a'i werthuso drwy gydol y cyfnod goruchwylio

- Gweithredir ar unrhyw adborth neu werthusiad.

9. Cyfrinachedd

Mae'n hanfodol bod gan y goruchwyliwr a'r goruchwyliedig ddealltwriaeth glir o'r trefniadau sy'n ymwneud â chyfrinachedd. Bydd y materion a drafodir rhwng y goruchwyliwr a'r goruchwyliedig yn gyfrinachol, oni bai bod pryderon yn cael eu codi neu'n dod yn amlwg ynghylch cynnwys y sesiwn. Gall y rhain ymwneud â gweithgarwch anghyfreithlon, ymarfer proffesiynol gwael, ymddygiad amhroffesiynol neu unrhyw beth sy'n peryglu diogelwch y sefydliad. Rhaid i'r goruchwyliwr sicrhau bod pryderon sy'n codi o sesiwn oruchwylio'n cael eu huwchgyfeirio drwy'r llwybrau priodol a bod yr unigolyn goruchwyliedig yn cael ei hysbysu.

10. Dogfennaeth ac Adrodd

Dylid cadw cofnodion sy'n ymwneud â themâu craidd unrhyw sesiwn. Ni ddylai hyn gynnwys gwybodaeth adnabyddadwy bersonol cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r goruchwyliwr a'r ymarferydd yn gyfrifol am gadw cofnodion clir, cywir a chyfoes. Rhaid i'r cofnodion hyn gael eu cadw yn unol â'r polisïau ar gyfrinachedd a chadw cofnodion. Rhaid i'r goruchwyliwr o leiaf gofnodi'r dyddiad, yr hyd ac enw a gweithle'r goruchwyliedig ar y cofnod goruchwylio **(Atodiad B)**.

Dylai unigolion goruchwyliedig clinigol gadw eu cofnodion cyfrinachol mwy cynhwysfawr eu hunain, a ddylai fod o natur fyfyriol. Mae templed enghreifftiol ar gyfer cofnodi myfyrdodau wedi'i gynnwys yn **(Atodiad C)** ond gellir defnyddio templedi eraill gan grwpiau neu gyrff proffesiynol.

11. Archwilio goruchwyliaeth

Mae'n bwysig gwerthuso effaith goruchwylio a chymorth staff, i ddangos eu hansawdd ar ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a datblygu staff. Bydd mecanweithiau gwahanol, yn dibynnu ar y math o oruchwylio. Dylai gwerthuso arwain at ragor o ddatblygu neu welliannau yn y gwasanaeth neu ar draws y sefydliad fel y bo'n briodol a dylai sicrhau'r canlynol:

- Mae'r holl staff perthnasol yn cymryd rhan
- Mae safonau goruchwylio clinigol yn gyson ym mhob grŵp proffesiynol
- Mae goruchwylio clinigol yn parhau i gydymffurfio â chanllawiau/modelau gorfodol a gymeradwyir gan bob corff rheoleiddio.

Atodiad A

Contract Goruchwylio Clinigol

Dylai'r contract goruchwylio hwn gael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer trafodaeth a chytundeb unigol

Enw'r unigolyn goruchwyliedig: Click or tap here to enter text. Rôl a safle gwaith: Click or tap here to enter text.

Enw'r goruchwyliwr: Click or tap here to enter text. Rôl a safle gwaith: Click or tap here to enter text.

Amlder a hyd sesiynau goruchwylio: Click or tap here to enter text.

Nod pob sesiwn oruchwylio fydd:

- Adolygu'r cofnod goruchwylio blaenorol a'r camau gweithredu
- Profiadau diweddar sy'n ymwneud â gwaith neu ryngweithiadau diweddar â chleifion, neu eraill yn y sefydliad.
- Newidiadau arfaethedig mewn ymarfer proffesiynol neu weithredol.
- Dylanwad materion personol a phroffesiynol ar ymarfer.
- Unrhyw fater arall.

Bydd cofnod ysgrifenedig o oruchwylio clinigol yn cael ei lunio a bydd yn cynnwys:

- Enw'r goruchwyliwr a'r goruchwyliedig
- Trosolwg o'r themâu
- Dyddiad
- Canlyniad\Cam gweithredu a gymerwyd

Cyfrinachedd a chadw cofnodion:

Ni all cyfrinachedd rhwng y goruchwyliwr a'r goruchwyliai fod yn llwyr rhwng y goruchwyliwr a'r goruchwyliedig mewn goruchwylio clinigol ac mae'n rhan bwysig o'r trefniadau contractio llafar rhwng y goruchwyliwr a'r goruchwyliedig. Mae ymddiriedaeth a pharch yn rhan bwysig o'r berthynas oruchwylio, ond mae'n bwysig cydnabod bod ffiniau i hyn ac mae angen egluro hyn ar y cychwyn. Gall fod angen rhannu gwybodaeth am amrywiaeth o resymau fel:

- Mater diogelwch cyhoeddus sy'n cael ei nodi yng ngwaith y goruchwyliedig
- Achos o dorri codau ymddygiad, canllawiau neu brotocol
- Gweithgarwch troseddol yn cael ei ddatgelu gan y goruchwyliedig
- Pryderon diogelu
- Archwilio neu werthuso goruchwylio clinigol

Nodyn ychwanegol:

Dylai perthnasoedd goruchwylio clinigol fod yn seiliedig ar gytundeb gweithredol penodol neu gontract llafar sy'n galluogi dealltwriaeth a chyfrifoldeb ar y cyd. Mae sefydlu rheolau sylfaenol goruchwylio clinigol yn osgoi amwysedd ac yn darparu fframwaith diogel y gall y berthynas ddatblygu ynddo mewn ffordd agored a gonest. Gall rheolau sylfaenol hefyd sefydlu'n gadarn ym meddyliau'r ddau barti elfennau sylfaenol goruchwylio. Mae'r rhain yn cynnwys y ffaith bod y berthynas yn cael ei sefydlu at ddiben penodol y gellir rhoi amser cyfyngedig ar ei chyfer. Ar ben hynny, mae angen pennu ffiniau er mwyn dileu dryswch a all arwain at estyn rôl y goruchwyliwr yn amhriodol y tu hwnt i'w faes arbenigedd. Er enghraifft, byddai'n anghywir tybio y bydd eich goruchwyliwr yn gallu darparu gwasanaeth cwnsela neu rolau eraill nad yw'n gymwys i'w gwneud yng nghyd-destun goruchwylio clinigol.

Bydd yr holl oruchwylio yn cael ei strwythuro o amgylch y contract a fydd yn pennu amlder y goruchwylio ac yn nodi dyddiad ar gyfer adolygiad, a fydd yn flynyddol o leiaf. Yn ddelfrydol, dylid ceisio goruchwylio o leiaf 4 gwaith y flwyddyn er y bydd hyn yn amrywio yn ôl argaeledd y goruchwyliwr a'r berthynas rhwng y goruchwyliwr a'r goruchwyliedig.

Fel unigolyn goruchwyliedig, rwy'n cytuno i wneud y canlynol:

- Bod yn barod i rannu fy mhrofiadau clinigol yn onest. Bod yn barod i ddysgu, datblygu a bod yn agored i gael adborth

- Darllen rôl a chyfrifoldebau unigolyn goruchwyliedig fel y'u nodir yng Nghanllawiau Goruchwylio Clinigol Iechyd Cyhoeddus Cymru a chytuno i'w cyflawni

- Cymryd cyfrifoldeb am wneud defnydd effeithiol o'r amser sydd ar gael ar gyfer goruchwylio ac am weithredu ar benderfyniadau a wneir yn ystod goruchwylio.

Llofnod (Goruchwyliedig): Click or tap here to enter text.

Fel Goruchwyliwr, byddaf yn gwneud y canlynol:

- Cynnig cyngor, cymorth a her i chi er mwyn ein galluogi i fodloni ein nodau ar gyfer goruchwylio clinigol

- Bod yn ymroddedig i ddatblygu fy hun fel gweithiwr proffesiynol gweithredol, gan ddefnyddio fy ngoruchwylio clinigol fy hun i gefnogi a datblygu fy ngalluoedd fel clinigydd ac fel goruchwyliwr clinigol

- Bodloni fy holl gyfrifoldebau sy'n ymwneud â goruchwylio clinigol fel y'u nodir yng Nghanllawiau Goruchwylio Clinigol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Llofnod (Goruchwyliwr Clinigol): Click or tap here to enter text.

Atodiad B

Cofnod Goruchwylio Clinigol

Enw'r goruchwyliwr: Click or tap here to enter text.

Unigolyn goruchwyliedig: Click or tap here to enter text.

Rôl a safle gwaith yr unigolyn goruchwyliedig: Click or tap here to enter text.

Sylwer: Dylech hefyd gofnodi dyddiadau a rhesymau dros ganslo sesiynau os yw hynny'n gymwys

Dyddiad /Amser	Math o Oruchwylio Clinigol	Crynodeb byr o'r materion allweddol/yr hyn a ddysgwyd/myfyrdodau	Hyd y sesiwn oruchwylio

Atodiad C

Cofnod Sesiwn Oruchwylio a Chynllun Gweithredu'r Unigolyn Goruchwyliedig

I'w lenwi ar ôl y sesiwn oruchwylio

Enw'r goruchwyliwr	Enw'r unigolyn/unigolion goruchwyliedig
Dyddiad y sesiwn	Hyd y sesiwn

Beth? (Disgrifiad o'r digwyddiad neu'r mater. Sicrhewch y cynhelir cyfrinachedd)	**Felly beth?** (Dadansoddiad o'r digwyddiad neu'r mater)	**Beth nawr?** (Dadansoddiad o'r digwyddiad neu'r mater)
Dyddiad arfaethedig y sesiwn nesaf		